

# Briff prosiect ysgolion uwchradd

### Tasg i'r disgyblion

Creu ymgyrch i wella ansawdd aer yn eich ysgol dros dymor yr haf.

### Gwobr

Noddir Sustrans Stroliwch a Roliwch 2026 gan Schwalbe Tyres UK.

Am gyfle i ymweld â'u Prif Swyddfa, cyflwynwch eich ymgyrch a dysgu drosoch eich hunain sut mae'r cwmni blaenllaw hwn yn y Deyrnas Unedig yn taclo newid hinsawdd.

Gweler isod sut i gyflwyno eich ymgyrch, yng ngham 4.

### Cyn ichi ddechrau arni:

Rhannwch yn grwpiau o 3 neu 4.

## Y dasg

**Mae gennych bythefnos i gwblhau'r dasg hon**

### Cam 1: ymchwil

1. Cynhaliwch waith ymchwil ar lygredd aer – beth ydyw, beth sy'n ei achosi, ymhle mae ef waethaf ac ati?
2. Ymchwiliwch pam mae llygredd aer yn ddrwg – sut mae'n effeithio ar bobl, natur ac amgylcheddau poblog iawn.
3. Ymchwiliwch wahanol ymgyrchoedd amgylcheddol. Nodwch beth sy'n eu gwneud yn llwyddiannus neu'n ddengar (man cychwyn da yw chwilio'r rhyngrwyd am "anti-idling campaign UK").

Mae Walk Wheel Cycle Trust yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (rhif 326550), Yr Alban (SC039263) a Gweriniaeth Iwerddon (20206824).

STROLIWCH A ROLIWCH
BIG WALK AND WHEEL
16 – 27 Mawrth 2026
16 – 27 March 2026

Walk Wheel Cycle Trust

Headline sponsor / prif noddwr
SCHWALBE



## Cam 2: cynllunio

1. Cynlluniwch eich syniadau ar gyfer eich ymgyrch. Gellid gwneud hyn ar ffurf map meddwl.
2. Meddyliwch am unrhyw adnoddau y gallech fod eisiau eu creu i hyrwyddo eich ymgyrch, e.e., posteri.
3. Meddyliwch am sut rydych chi am gyflwyno eich ymgyrch. Gallai hyn fod ar ffurf cyflwyniad, fideo ac ati.

## Cam 3: cynnal yr ymgyrch

1. Crëwch eich ymgyrch.
2. Cyflwynwch eich ymgyrch i'ch dosbarth gan wneud yn siŵr eich bod yn ei recordio os mai cyflwyniad ydyw.

## Cam 4: cloi

Cyflwynwch eich ymgyrch i bigwalkandwheel@walkwheelcycletrust.org.uk am gyfle i ennill y cyfle i arddangos eich ymgyrch.

## Pethau i feddwl amdanynt/ystyried

- A yw ansawdd yr aer yn effeithio'n anghymesur ar bobl?
- Allech chi gasglu unrhyw ddata i dynnu sylw at ansawdd aer gwael? Gallai hwn fod yn ddata cynradd neu eilaidd
- Pa rwystrau allai fodoli i wella ansawdd aer yn eich ysgol?
- Pwy yw'r gynulleidfa darged ar gyfer eich ymgyrch, ai athrawon, rhieni, disgyblion?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich canfyddiadau? Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth yn hawdd ei ddeall a'i ddilyn
- Beth yw'r nod yn y pen draw? Allech chi gael eich ysgol neu weithle yn un di-garbon erbyn 2030? Gweler 'let's go zero' am fwy o wybodaeth ac ysbrydoliaeth: letsgozero.org

Mae Walk Wheel Cycle Trust yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (rhif 326550), Yr Alban (SC039263) a Gweriniaeth Iwerddon (20206824).

Walk Wheel Cycle Trust